**Crynodeb o Benderfyniadau a Chamau Gweithredu**

**Cyd-bwyllgor Gweithredol Cyngor Partneriaeth y Gweithlu**
**Dydd Gwener, 22 Tachwedd 2019 – 14:30**
**Ystafell Harlech, Adeiladau'r Llywodraeth, Parc Cathays, Caerdydd**

**Cadeirydd - Mike Payne – Ochr yr Undebau Llafur**

| Eitem | Penderfyniad/Cam gweithredu | |
|---|---|---|
| **1 - Y Diweddaraf ar y Bartneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg** | | Dim penderfyniadau na chamau gweithredu |
| **2. Rhaglen Waith Cyngor Partneriaeth y Gweithlu - Tegwch** | **Penderfyniadau** | Dylai'r ffrydiau gwaith tegwch a symudedd gael eu cyfuno o dan ffrwd waith Un Gwasanaeth Cyhoeddus o hyn ymlaen |
| | | Dylai'r Cyd-ysgrifenyddiaeth baratoi papur sy'n mapio gweithgarwch strategol sy'n ymwneud â thegwch ac integreiddio fel y mae'n ymwneud â phartneriaeth gymdeithasol a Chyngor Partneriaeth y Gweithlu |
| | **Cam gweithredu** | Dylai'r Cyd-ysgrifenyddiaeth baratoi papur sy'n mapio gweithgarwch strategol sy'n ymwneud â thegwch ac integreiddio fel y mae'n ymwneud â phartneriaeth gymdeithasol a'r Cyngor |
| **3. Rhaglen Waith Cyngor Partneriaeth y Gweithlu - Drafft o'r adroddiad Dyfodol Gwaith** | **Penderfyniad** | Cytunodd aelodau'r Cyd-bwyllgor Gweithredol i gefnogi ail gam yr adroddiad Dyfodol Gwaith drwy nodi unigolion perthnasol sydd ag arbenigedd neu brofiad o effaith awtomatiaeth ar y gweithlu |
| | **Camau Gweithredu** | Aelodau o'r Cyd-bwyllgor Gweithredol i nodi unigolion sydd ag arbenigedd perthnasol a phrofiad o effaith awtomatiaeth ar y gweithlu |
| | | Joanne Oak i ddarparu gwybodaeth am arolwg Sally Meecham ynghylch defnydd cyrff cyhoeddus o dechnoleg |
| **4. Rhaglen Waith Cyngor Partneriaeth y Gweithlu - Drafft o'r Arferion Gorau o ran y Defnydd Derbyniol o Drefniadau Oriau Heb Eu Gwarantu** | **Penderfyniadau** | Gofynnodd aelodau'r Cyd-bwyllgor Gweithredol am i lythyr eglurhaol y Gweinidog sy'n cyflwyno'r cytundeb Trefniadau Oriau Heb Eu Gwarantu ddatblygu agweddau ar y ddogfen arferion gorau yng nghyd-destun statws a thelerau newydd Cytundeb Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ac y dylai'r cynnwys gael ei ddatblygu ar y cyd |
| | | Dylai'r Cyd-ysgrifenyddiaeth baratoi fersiwn ddiwygiedig o'r ddogfen arferion |

| | | |
|---|---|---|
| | | gorau ac astudiaethau achos i'w chyflwyno i'r Cyd-bwyllgor ym mis Ionawr. Mae'n cynnwys ymatebion yr astudiaethau achos i'r cytundeb Trefniadau Oriau Heb Eu Gwarantu diwygiedig ac adrannau 'gwersi a ddysgwyd' |
| | **Cam gweithredu** | Gofynnodd aelodau'r Cyd-bwyllgor Gweithredol am i lythyr eglurhaol y Gweinidog ynghylch y cytundeb Trefniadau Oriau Heb Eu Gwarantu gyfeirio at fanylion yn y ddogfen arferion gorau |
| **5. Y Diweddaraf ar Gyd-ysgrifenyddiaeth Cyngor Partneriaeth y Gweithlu** | **Penderfyniadau** | Cytunodd y Cyd-bwyllgor Gweithredol ar ddyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a'r Cyd-bwyllgor yn 2020. |
| | | Cytunodd y Cyd-bwyllgor Gweithredol i ddiwygio cam tri yn ei broses ymgynghori fel bod cyfle i aelodau o'r Cyd-bwyllgor negodi cytundeb drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i ymgynghori ymhellach arno |
| | **Cam gweithredu** | Dylai'r Cyd-ysgrifenyddiaeth anfon fersiwn ddiwygiedig o broses ymgynghori Cyngor Partneriaeth y Gweithlu gyda'r newid wedi'i amlygu |
| **6. Adolygiad o Gofnodion y Cyd-bwyllgor Gweithredol a Materion sy'n Codi.** | **Penderfyniadau** | Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod arbennig o'r Cyd-bwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2019 yn wir ac yn gywir |
| | | Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod arbennig o'r Cyd-bwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd ar 31 Hydref 2019 yn wir ac yn gywir |
| | | Cytunwyd bod cofnodion cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Gweithredol a gynhaliwyd ar 18 Medi 2019 yn wir ac yn gywir |